

Agenda – Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd Graeme Francis – Clerc y Pwyllgor
Dyddiad: Dydd Mawrth, 27 Mehefin Kath Thomas – Dipwrwy Glerc
2017 0300 200 6565
Amser: 09.30 SeneddDeisebau@cynulliad.cymru

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant (Tudalennau 1 – 30)

2 Deisebau newydd

2.1 P-05-757 Cael gwared ar y rhwymedigaeth ar ysgolion i gynnal
gweithredoedd addoli crefyddol
(Tudalennau 31 – 42)

2.2 P-05-765 Cadw canllawiau presennol ar gyfer Gwasanaethau Crefyddol
(Tudalennau 43 – 51)

2.3 P-05-761 Mynnu cyllid gan Lywodraeth Cymru i gefnogi Autism Spectrum
Connections Cymru
(Tudalennau 52 – 61)

2.4 P-05-762 Symud Cynulliad Cymru o Gaerdydd
(Tudalennau 62 – 69)

2.5 P-05-764 Gwell Gwasanaethau Iechyd Meddwl ar gyfer Oedolion
(Tudalennau 70 – 77)

3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

Amgylchedd a Materion Gwledig

Bydd y ddwy eitem ganlynol yn cael eu grwpio gyda'i gilydd ar gyfer hystyriaeth.

3.1 P-04-472 Gwnewch y Nodyn Cyngor Technegol Mwynau yn ddeddf
(Tudalennau 78 – 79)

3.2 P-04-575 Galw i Mewn Pob Cais Cynllunio ar Gyfer Cloddio Glo Brig
(Tudalennau 80 – 82)



3.3 P-05-743 Rhowch Derfyn ar Fasnachu Anifeiliaid Anwes Egsotig yng Nghymru

(Tudalennau 83 – 86)

Addysg

Bydd y ddwy eitem ganlynol yn cael eu grwpio gyda'i gilydd ar gyfer hystyriaeth.

3.4 P-04-576 Caniatáu i Blant yng Nghymru Gael Gwyliau Teuluol yn Ystod Tymor yr Ysgol

(Tudalennau 87 – 89)

3.5 P-04-606 Sicrhau bod ysgolion yn defnyddio eu pwerau statudol o dan reoliad 7 o Reoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010 heb unrhyw ymyrraeth neu ragfarn.

(Tudalennau 90 – 92)

3.6 P-04-679 – Dileu'r Cymhwyster Bagloriaeth Cymru

(Tudalen 93)

3.7 P-05-707 Rhaid i Hyfforddiant Athrawon Gynnwys Hyfforddiant Statudol ar Awtistiaeth

(Tudalennau 94 – 96)

3.8 P-05-748 Bysiau Ysgol i Blant Ysgol

(Tudalennau 97 – 101)

Iechyd

3.9 P-04-505 Uned Anhwylderau Bwyta yng Nghymru

(Tudalennau 102 – 104)

3.10 P-04-532 Gwella Gwasanaethau Niwrogyhyrol Arbenigol yng Nghymru

(Tudalennau 105 – 106)

Economi a'r Seilwaith

3.11 P-05-720 Deiseb Cyngor Cymuned Hirwaun a Phenderyn i Osod Band Eang opteg Ffibr yn y Pentref.

(Tudalennau 107 – 108)

3.12 P-05-725 Ehangu'r A470 o Bontypridd i gyfnewidfa Coryton, i fod â thair lôn.

(Tudalennau 109 – 110)

Gymunedau a Phlant

3.13 P-05-742 Peidiwch â gadael i Forsythia gau!

(Tudalennau 111 – 120)

4 Papurau i'w nodi

(Tudalennau 121 – 123)

5 Sesiwn dystiolaeth – P-04-628 Mynediad at Iaith Arwyddion

Prydain i Bawb

(10.15 – 10.45)

(Tudalennau 124 – 138)

Alun Davies AC, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes

Ruth Conway, Llywodraeth Cymru

Claire Rowlands, Llywodraeth Cymru

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

P-05-757 Cael gwared ar y rhwymedigaeth ar ysgolion i gynnal gweithredoedd addoli crefyddol

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Rhiannon Shipton & Lily McAllister-Sutton ar ôl casglu 1,333 llofnod.

Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i basio deddf a fydd yn cael gwared ar y rhwymedigaeth ar ysgolion i gynnal gweithredoedd addoli crefyddol.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- De Caerdydd a Phenarth
- Canol De Cymru

Gweithredoedd addoli crefyddol mewn ysgolion

Y Pwyllgor Deisebau | 27 Mehefin 2017
Petitions Committee | 27 June 2017

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil:

Rhif y ddeiseb: P-05-757

Teitl y ddeiseb: [Cael Gwared ar y Rhwymedigaeth ar Ysgolion i Gynnal Gweithredoedd Addoli Crefyddol](#)

Testun y ddeiseb: Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i basio deddf a fydd yn cael gwared ar y rhwymedigaeth ar ysgolion i gynnal gweithredoedd addoli crefyddol.

1. Y sefyllfa gyfreithiol

Cafodd y ddyletswydd statudol i ysgolion gael gweithredoedd dyddiol o addoli ar y cyd yng Nghymru (a Lloegr a Gogledd Iwerddon) ei chyflwyno yn *Neddf Addysg 1944*. Yn dilyn hynny, roedd *Deddf Fframwaith a Safonau Ysgolion 1998* yn nodi y bydd pob disgybl sy'n mynychu ysgol gymunedol, ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol yn cymryd rhan mewn gweithred o addoli ar y cyd ar bob diwrnod ysgol. Mae'n cynnwys eithriad y gall rhieni dynnu eu plant o weithredoedd o'r fath. Mae'r Ddeddf yn nodi y bydd y rhan fwyaf o'r addoli ar y cyd o natur Gristnogol fras yn gyfan gwbl neu'n bennaf.

Mae gan ysgolion yr hawl i 'benderfyniad' – sef, cael eu rhyddhau o'r gofynion i weithredoedd addoli fod o natur Gristnogol fras yn gyfan gwbl neu'n bennaf, pe bai cyfansoddiad yr ysgol yn gofyn am hyn. Nid oes gan ysgolion sydd â chymeriad crefyddol yr hawl i benderfyniad.

Mae darpariaethau *Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006* yn caniatáu i ddisgyblion chweched dosbarth mewn ysgolion cymunedol, ysgolion arbennig cymunedol, ysgolion gwirfoddol, ysgolion sefydledig ac ysgolion arbennig sefydledig yr hawl i dynnu eu hunain yn ôl o addoli ar y cyd.

Yn ei hymateb i'r Pwyllgor, mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn nodi'r sefyllfa gyfreithiol bresennol a'i barn y dylai addoli ar y cyd fod yn sensitif i amrywiaeth o gredoau ac achosion lle nad oes credoau a ddelir gan y disgyblion yn yr ysgol.

Er bod darpariaethau tebyg yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, nid yw [*Deddf Addysg a Llyfrgelloedd \(Gogledd Iwerddon\) 1986*](#) yn nodi bod yn rhaid i addoliad fod yn Gristnogol.

Yn yr Alban, nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol i ysgolion gynnal gweithredoedd o addoli ar y cyd; yn lle hynny, defnyddir y termau 'defodau crefyddol' neu 'amser i feddwl'. Mae [*Deddf Addysg \(yr Alban\) 1980*](#), yn nodi ym mhob ysgol a ariennir gan y wladwriaeth, y dylai **defodau crefyddol** fod ar gael, oni bai bod penderfyniad i derfynu hyn wedi cael ei basio gan yr awdurdod addysg lleol a'i gymeradwyo gan yr etholwyr yn ardal yr awdurdod lleol hwnnw. Mae [*Curriculum for Excellence: Provision of Religious Observance in Schools*](#) (Mawrth 2017) Llywodraeth yr Alban yn nodi y gall ysgolion deimlo y bydd enw gwahanol ar gyfer y digwyddiadau sy'n bodloni eu gofynion defodau crefyddol yn fwy priodol i'w cyd-destun a'u diwylliant unigol. Er enghraifft, mewn ysgol anenwadol, efallai yr ystyrir y defnydd o'r term 'amser i feddwl' yn fwy priodol gan gymuned yr ysgol. Mae hefyd yn nodi y dylai pob ysgol ddarparu cyfleoedd ar gyfer defodau crefyddol sawl gwaith mewn blwyddyn ysgol.

Canllawiau Llywodraeth Cymru

Cyhoeddodd y Swyddfa Gymreig gynt ganllawiau anstatudol, [*Addysg Grefyddol a Chydaddoli*](#) ym mis Medi 1994. Cyhoeddodd Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru (WASACRE) [*Ganllawiau ar Addoli ar y Cyd*](#) ym mis Mehefin 2012. Y nod oedd cryfhau ac egluro'r disgwyliadau a nodir yng Nghylchlythyr y Swyddfa Gymreig ym 1994. Mae canllawiau WASACRE yn nodi'r manteision o addoli ar y cyd fel a ganlyn:

- Hybu datblygiad ysbrydol;
- Cyfrannu at ddatblygiad personol;
- Yn fuddiol i gymuned yr ysgol gyfan;
- Cysylltu cymuned yr ysgol â'r gymuned ehangach;
- Gwella ymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang.

Er na chaiff y term 'addoli' ei ddiffinio mewn deddfwriaeth, mae canllawiau 1994 y Swyddfa Gymreig yn cynnwys y diffiniad a ganlyn:

“Rhaid iddo mewn rhyw ffordd adlewyrchu rhywbeth sy'n arbennig neu'n wahanol i weithgareddau arferol yr ysgol a dylai ymwneud â'r parch neu'r addoliad a gynigir i fod neu bŵer duwiol.”

Mae addoli mewn ysgolion yn wahanol i addoli ymysg grŵp o bobl sydd â chredoau cyffredin. Caiff hyn ei gydnabod mewn deddfwriaeth drwy'r cyfeiriad at addoli 'ar y cyd' yn hytrach nag addoli 'corfforaethol'.

Mae Estyn yn arolygu gweithredoedd addoli ar y cyd ym mhob ysgol nad ydynt yn darparu addysg enwadol. Ym mhob ysgol arall, caiff gweithredoedd o addoli ar y cyd eu harchwilio gan arolygwyr a benodir gan gorff llywodraethu'r ysgol.

2. Senedd y DU

Mewn ateb i [Gwestiwn Ysgrifenedig Tŷ'r Arglwyddi](#) ar 26 Ionawr 2016, dywedodd yr Arglwydd Nash, yr Is-ysgrifennydd Gwladol dros Ysgolion:

“The Government does not plan to change the requirements for a daily act of collective worship. It is for schools to tailor their provision to suit the needs of their pupils, and parents can choose to withdraw their children from all or any part of collective worship.”

Wrth ystyried *Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006* (yng nghyfnod y Bil), nododd Cyd-bwyllgor Senedd y DU ar Hawliau Dynol fod [Adroddiad Rhif 28](#) (Hydref 2006) Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn nodi fel a ganlyn:

“Children enjoy the right to freedom of thought, conscience and religion under both Article 9 of the European Convention on Human Rights and Article 14(1) of the UN Convention on the Rights of the Child. The UK is also under an obligation to assure to the child who is capable of forming his or her own views the right to express those views freely in all matters affecting the child, and to give those views due weight in accordance with the age and maturity of the child.”

Roedd y Pwyllgor yn argymhell y canlynol:

“In our view the current legal framework is incompatible with these obligations in so far as it fails to guarantee a child of sufficient maturity, intelligence and understanding the right to withdraw from both compulsory religious education and collective worship. An amendment to the Bill which gave pupils over the age of 16 the right to withdraw from collective worship would therefore reduce the extent of the incompatibility of the present law with the UK’s human rights obligations, but it would not remove that incompatibility altogether.

To remove the incompatibility, in our view, it would be necessary to go further in two respects: first, by granting a right to withdraw from religious education as well as collective worship; and, second, by affording the right to withdraw from both religious education and collective worship to any pupil of sufficient maturity, understanding and intelligence to make an informed decision about whether or not to withdraw.”

3. Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Mae [Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc \(Cymru\) 2011](#) yn cynnwys ystyriaeth o'r Confensiwn a'r Protocolau Dewisol yng nghyfraith Cymru. Mae'r Mesur yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi 'sylw dyledus' i'r canlynol:

- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn;
- Y Protocol Dewisol i'r Confensiwn ar gynnwys plant mewn gwrthdrawiadau arfog;
- Y Protocol Dewisol i'r Confensiwn ar werthu plant, puteindra plant a phornograffi plant.

Ym mis Mehefin 2016, cyhoeddodd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ei [*Sylwadau Clo*](#) ar ba gynnydd sydd wedi'i wneud i gyflawni ar hawliau plant. Yn dilyn adolygiad ledled y DU, gwnaeth dros 150 o argymhellion. Mynegodd Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig bryder ynghylch addoli ar y cyd ar gyfer disgyblion yng Nghymru a Lloegr. Mae'n argymhell fel a ganlyn:

“The State party repeal legal provisions for compulsory attendance at collective worship in publicly funded schools and ensure that children can independently exercise the right to withdraw from religious worship at school.”

4. Gwaith ymchwil ar addoli ar y cyd

Ym mis Tachwedd 2015, cyhoeddodd Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a Dyniaethau adroddiad, [*Collective Worship and Religious Observance in Schools: An Evaluation of Law and Policy in the UK*](#). Roedd yn nodi:

“The statutory duty to provide an act of collective worship/religious observance in schools has been controversial for decades. Issues include: disagreement about the appropriateness of such acts in an increasingly pluralistic, multicultural UK; the degree to which the current system properly affords respect for the rights of individuals and minority groups, including those with no religious faith; and concerns that the present arrangements do not adequately develop the spiritual/moral education of pupils, or promote a community spirit and shared values in schools.”

Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at rai pryderon cyffredin ynghylch addoli ar y cyd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Diffyg rhesymeg gydlynol ar gyfer yr ysgol
- Methiant i ddiogelu safonau Hawliau Dynol; a
- Diffyg eglurder ac amwysedd sy'n golygu y gall penaethiaid arfer dylanwad gormodol neu amhriodol dros gynnwys yr addoliad neu fod yn anfodlon neu'n amharod i wneud penderfyniadau ynghylch cynnwys addoli ar y cyd.

Mae'r adroddiad yn awgrymu, pe bai'r ddyletswydd yn cael ei diddymu, efallai y bydd ysgolion am barhau i gwrdd. Byddai angen cael mecanwaith i sicrhau bod cyfarfodydd o'r fath yn gynhwysol ac yn parchu uniondeb disgyblion, rhieni ac athrawon. Mae hefyd yn awgrymu y gallai dileu'r ddyletswydd fod yn gyfle a gollir i ddatblygu disgyblion a chydlynid cymdeithasol.

Roedd yr adroddiad yn nodi dulliau posibl ar gyfer diwygio:

- Dileu'r gofyniad bod yn rhaid i weithredoedd addoli ar y cyd fod o natur Gristnogol fras;
- Disodli'r ddyletswydd gyda dyletswydd ar gyfer 'amser i feddwl'.

Roedd yn cynnwys argymhellion penodol ar gyfer Cymru:

- Dylai Cylchlythyr 10/94, *Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd* gael ei ddiwygio ar frys er mwyn adlewyrchu anghenion cyfoes y system addysg yng Nghymru, yn enwedig yn sgil argymhellion Donaldson;
- Dylai statws anstatudol y cylchlythyr fod yn hysbys yn eang i ysgolion, Cyngorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol ac Estyn;
- Dylai Estyn adolygu ei ganllawiau arolygu a rhoi mwy o bwyslais ar agwedd gyfunol y gweithgarwch;
- Wrth adolygu a gwneud penderfyniadau yn y maes hwn, dylai Gweinidogion Cymru roi sylw dyledus i hawliau plant a phobl ifanc fel sy'n ofynnol yn sgil y Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru).

Adolygiad o'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru

Roedd adolygiad yr Athro Graham Donaldson o'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru, *Dyfodol Llwyddiannus* (Chwefror 2015) yn cyfeirio at **addysg grefyddol**, yn hytrach nag addoli ar y cyd. Roedd yn argymhell y dylai addysg grefyddol fod yn rhan o Faes Dysgu a Phrofiad Dyniaethau, a dylai barhau i fod yn ofyniad cwricwlwm statudol o'r dosbarth derbyn. Derbyniodd Llywodraeth Cymru bob un o argymhellion yr Athro Donaldson yn llawn. Ar [15 Gorffennaf 2015, wrth ymateb i gwestiwn yn y Cyfarfod Llawn](#), dywedodd Huw Lewis, y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd, mewn perthynas ag addysg grefyddol:

"Hoffwn fanteisio ar y cyfle i gyhoeddi y prynhawn yma fy mod yn credu ein bod angen trawsnewid ein cwricwlwm addysg grefyddol ar hyn o bryd. Byddwn yn haeru y dylem ail-enwi'r cwricwlwm Addysg Grefyddol a'i newid yn elfen crefydd, athroniaeth a moeseg y cwricwlwm, lle ceir ymrwymiad pendant i ganiatáu i blant fyfyrion ynghylch syniadau am foeseg a dinasyddiaeth a'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn ddinesydd mewn gwlad rydd."

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag 'Ysgolion Arloesol' a chonsortia rhanbarthol ar ddyluniad y chwe Maes Dysgu a Phrofiad yn y cwricwlwm newydd. Disgwylir i fwy o wybodaeth am gynnwys y cwricwlwm fod ar gael yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

5. Deisebau blaenorol

Yn 2012, trafododd y Pwyllgor Deisebau ddeiseb a oedd yn galw ar y Cynulliad i annog Llywodraeth Cymru i [ddiogelu'r arfer o addoli ar y cyd fel gofyniad cyfreithiol](#) a deiseb yn [galw i addoli ar y cyd gael ei ddiddymu](#). Ar 15 Mai 2012, ysgrifennodd [Leighton Andrews, y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd](#) at y Pwyllgor:

"I recognise that collective worship is an important part of school life. In our multicultural country, it can be used as a way of supporting pupils' spiritual development and providing all pupils, irrespective of their family background, aged and aptitudes, with opportunities to explore and express what is of value in life in an open reflective way. With this in mind, I am not considering a change to the status of collective worship within schools in Wales."

Oherwydd ymateb diamwys y Gweinidog ar y pryd, cafodd y ddwy ddeiseb eu cau.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

Kirsty Williams AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-757
Ein cyf/Our ref KW/00682/17

Mike Hedges AC
Cadeirydd - Y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

government.committee.business@cymru.gsi.gov.uk

2 Mai 2017

Annwyl Mike

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 24 Ebrill am Ddeiseb P-05-757, ynghylch cael gwared ar y gofyniad sydd ar ysgolion i gynnal sesiynau addoli crefyddol.

Hoffwn ddiolch ichi am roi cyfle imi roi fy safbwyntiau cyn i'r Pwyllgor Deisebau ystyried y ddeiseb yn ffurfiol.

Fy marn i ar addoli ar y cyd yw y dylai fod yn sensitif i'r amrywiaeth o gredoau a'r rheini nad oes ganddynt gredoau o fewn yr ysgol, ac y dylai roi'r cyfle i ddisgyblion addoli, heb eu hannog i wneud rhywbeth sy'n groes i ddysgeidiaeth eu crefydd neu eu credoau eu hunain. Er enghraifft, gallai cyfnodau o weddi fod yn benagored i ddisgyblion gael adrodd eu gweddïau eu hunain yn dawel neu ystyried materion moesol neu athronyddol.

Mae'r gofynion deddfwriaethol penodol o ran addoli ar y cyd mewn ysgolion wedi'u nodi yn Adran 70 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, sy'n nodi bod yn rhaid cynnal sesiwn addoli ar y cyd bob dydd, ac yn Atodlen 20 Deddf Addysg 1996, sy'n amlinellu natur addoli ar y cyd.

Mater i ysgolion unigol yw mynd ati i gynllunio a chyflwyno sesiynau addoli ar y cyd. Mae'r gyfraith yn nodi y dylai'r rhan fwyaf o sesiynau addoli ar y cyd fod o natur gyfangwbl led-Gristnogol neu led-Gristnogol yn bennaf ac, felly, mae'n dderbyniol cynnal sesiwn addoli ar y cyd yn achlysurol nad yw'n amlwg gysylltiedig â'r ffydd Gristnogol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400


Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 38
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gall rhieni wneud cais i'w plentyn gael ei dynnu allan o sesiynau addoli ar y cyd a rhaid i ysgolion gytuno i geisiadau o'r fath bob amser.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Kirsty Williams'.

Kirsty Williams AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

P-05-757 P-05-757 Remove the Obligation on Schools to Hold Acts of Religious Worship – Correspondence from the Petitioner to the Committee, 19.06.17

TO MEMBERS OF THE NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES' PETITIONS COMMITTEE

Dear Committee Members,

We are the organisers of the petition which reads: “We call on the National Assembly for Wales to urge the Welsh Government to pass a law that removes the obligation on schools to hold acts of religious worship”.

We are both Year 10 students at Ysgol Glantaf in Cardiff, and neither of us believe in God. As time went on, we became increasingly annoyed at being expected to say the Lord's Prayer in the regular school assemblies. It didn't seem right that we were expected to pray, and to say the words of the prayer, even though we are not Christian.

We mentioned this at home, and Rhiannon's Dad said that instead of just complaining, we should do something about it. He explained that the school was forced by law to hold religious assemblies and that there had to be acts of worship, which included praying.

He also explained that while it was possible for parents to withdraw their children from religious assemblies, he did not think this was a good idea because it is a good thing for there to be meetings where the whole school comes together.

He told us that the National Assembly has the power to change the law, and suggested we organise an online petition that could go to the Petitions Committee.

We met the Clerk to the Committee and he explained how the petitions system works.

We got the petition online and at first told our friends about it and asked them to sign. We put the petition on Facebook and it got more support.

Rhiannon's Dad also tweeted about it.

We also contacted the National Secular Society and the British Humanist Association, and they asked their members in Wales to sign the petition.

We got some news coverage in Golwg, BBC Radio Wales, the South Wales Echo, and WalesOnline.

We would like to make it clear that our petition is not an attack on any religion. We respect people's right to believe what they like, and we are not saying that religion should not be taught in schools. Obviously it has played a big part in history and it is important to learn about it.

But learning about religion is different to being forced to pray or take part in an "act of worship". Religious worship has nothing to do with education, and we think schools should no longer be forced to organise it. People can pray at home, if they want to, or in church. We believe that acts of religious worship in state schools like ours go against the idea of secular education.

After there was some publicity about our petition, we were contacted by Dr Alison Mawhinney of Bangor University, who has done a lot of research on the subject. She told us that the Welsh Government should seriously consider changing the law.

One important point Dr Mawhinney made is that, in her opinion, forcing us to say a prayer against our will is a violation of our right to freedom of belief under Article 9 of the Human Rights Act 1998. Yet that is what is happening under the current guidelines. We hope the Committee will take on board our concern over this point in particular.

We would like there to be a thorough review of the current law and guidelines. We would rather not have acts of worship in schools, but another solution could be that young people like us should ourselves have the right to withdraw from the religious worship part of assemblies. At present parents have to ask for children to be withdrawn. It would also be possible to have a system where prayers, for those who want to say them, could take place either at the very beginning or the very end of assemblies, so those who wanted to opt out could do so without missing the rest. But we don't think the current guidelines should continue.

We are aware that since we launched our petition, another one has been organised in favour of keeping the existing guidelines. Those signing the other petition have a right to their view, but we do not believe they have a right to impose their beliefs on others through forced praying.

We are disappointed by the response to our petition of Ms Kirsty Williams, the Cabinet Secretary for Education. We don't believe she has considered the human rights aspect of the issue at all.

We are very grateful to all who signed our petition and supported us, and hope members of the Committee will support our cause and suggest a way forward.

We are also grateful to the Committee Clerk for his advice.

Thank you and best wishes,

Rhiannon Shipton and Lily McAllister-Sutton

P-05-765 Cadw canllawiau presennol ar gyfer Gwasanaethau Crefyddol

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Iraj Irfan, ar ôl casglu cyfanswm o 2,231 llofnod – 2,209 o lofnodion ar-lein, a 22 o lofnodion ar bapur mewn deiseb amgen.

Geiriad y ddeiseb:

Rydym yn galw ar i Gynulliad Cenedlaethol Cymru annog Llywodraeth Cymru i gadw gwasanaethau crefyddol yn ysgolion gwladol Cymru fel rhai ‘optio allan’ ac “o natur Gristnogol fras yn gyfan gwbl neu’n bennaf”, gan ystyried ffyrdd o sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol i bobl sydd o grefydd wahanol a’r rhai sydd heb grefydd o gwbl.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Gorllewin Caerdydd
- Canol De Cymru

Gweithredoedd addoli crefyddol mewn ysgolion

Y Pwyllgor Deisebau | 27 Mehefin 2017
Petitions Committee | 27 June 2017

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil:

Rhif y ddeiseb: P-05-765

Teitl y ddeiseb: Cadw canllawiau presennol ar gyfer gwasanaethau crefyddol

Testun y ddeiseb: Rydym yn galw ar i Gynulliad Cenedlaethol Cymru annog Llywodraeth Cymru i gadw gwasanaethau crefyddol yn ysgolion gwladol Cymru fel rhai 'optio allan' ac "o natur Gristnogol fras yn gyfan gwbl neu'n bennaf", gan ystyried ffyrdd o sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol i bobl sydd o grefydd wahanol a'r rhai sydd heb grefydd o gwbl.

1. Y sefyllfa gyfreithiol

Cafodd y ddyletswydd statudol i ysgolion gael gweithredoedd dyddiol o addoli ar y cyd yng Nghymru (a Lloegr a Gogledd Iwerddon) ei chyflwyno yn *Neddf Addysg 1944*. Yn dilyn hynny, roedd *Deddf Fframwaith a Safonau Ysgolion 1998* yn nodi y bydd pob disgybl sy'n mynychu ysgol gymunedol, ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol yn cymryd rhan mewn gweithred o addoli ar y cyd ar bob diwrnod ysgol. Mae'n cynnwys eithriad y gall rhieni dynnu eu plant o weithredoedd o'r fath. Mae'r Ddeddf yn nodi y bydd y rhan fwyaf o'r addoli ar y cyd o natur Gristnogol fras yn gyfan gwbl neu'n bennaf.

Mae gan ysgolion yr hawl i 'benderfyniad' – sef, cael eu rhyddhau o'r gofynion i weithredoedd addoli fod o natur Gristnogol fras yn gyfan gwbl neu'n bennaf, pe bai cyfansoddiad yr ysgol yn gofyn am hyn. Nid oes gan ysgolion sydd â chymeriad crefyddol yr hawl i benderfyniad.

Mae darpariaethau *Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006* yn caniatáu i ddisgyblion chweched dosbarth mewn ysgolion cymunedol, ysgolion arbennig cymunedol, ysgolion gwirfoddol, ysgolion sefydledig ac ysgolion arbennig sefydledig yr hawl i dynnu eu hunain yn ôl o addoli ar y cyd.

Yn ei hymateb i'r Pwyllgor, mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn nodi'r sefyllfa gyfreithiol bresennol a'i barn y dylai addoli ar y cyd fod yn sensitif i amrywiaeth o gredoau ac achosion lle nad oes credoau a ddelir gan y disgyblion yn yr ysgol.

Er bod darpariaethau tebyg yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, nid yw [*Deddf Addysg a Llyfrgelloedd \(Gogledd Iwerddon\) 1986*](#) yn nodi bod yn rhaid i addoliad fod yn Gristnogol.

Yn yr Alban, nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol i ysgolion gynnal gweithredoedd o addoli ar y cyd; yn lle hynny, defnyddir y termau 'defodau crefyddol' neu 'amser i feddwl'. Mae [*Deddf Addysg \(yr Alban\) 1980*](#), yn nodi ym mhob ysgol a ariennir gan y wladwriaeth, y dylai **defodau crefyddol** fod ar gael, oni bai bod penderfyniad i derfynu hyn wedi cael ei basio gan yr awdurdod addysg lleol a'i gymeradwyo gan yr etholwyr yn ardal yr awdurdod lleol hwnnw. Mae [*Curriculum for Excellence: Provision of Religious Observance in Schools*](#) (Mawrth 2017) Llywodraeth yr Alban yn nodi y gall ysgolion deimlo y bydd enw gwahanol ar gyfer y digwyddiadau sy'n bodloni eu gofynion defodau crefyddol yn fwy priodol i'w cyd-destun a'u diwylliant unigol. Er enghraifft, mewn ysgol anenwadol, efallai yr ystyrir y defnydd o'r term 'amser i feddwl' yn fwy priodol gan gymuned yr ysgol. Mae hefyd yn nodi y dylai pob ysgol ddarparu cyfleoedd ar gyfer defodau crefyddol sawl gwaith mewn blwyddyn ysgol.

Canllawiau Llywodraeth Cymru

Cyhoeddodd y Swyddfa Gymreig gynt ganllawiau anstatudol, [*Addysg Grefyddol a Chydaddoli*](#) ym mis Medi 1994. Cyhoeddodd Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru (WASACRE) [*Ganllawiau ar Addoli ar y Cyd*](#) ym mis Mehefin 2012. Y nod oedd cryfhau ac egluro'r disgwyliadau a nodir yng Nghylchlythyr y Swyddfa Gymreig ym 1994. Mae canllawiau WASACRE yn nodi'r manteision o addoli ar y cyd fel a ganlyn:

- Hybu datblygiad ysbrydol;
- Cyfrannu at ddatblygiad personol;
- Yn fuddiol i gymuned yr ysgol gyfan;
- Cysylltu cymuned yr ysgol â'r gymuned ehangach;
- Gwella ymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang.

Er na chaiff y term 'addoli' ei ddiffinio mewn deddfwriaeth, mae canllawiau 1994 y Swyddfa Gymreig yn cynnwys y diffiniad a ganlyn:

“Rhaid iddo mewn rhyw ffordd adlewyrchu rhywbeth sy'n arbennig neu'n wahanol i weithgareddau arferol yr ysgol a dylai ymwneud â'r parch neu'r addoliad a gynigir i fod neu bŵer duwiol.”

Mae addoli mewn ysgolion yn wahanol i addoli ymysg grŵp o bobl sydd â chredoau cyffredin. Caiff hyn ei gydnabod mewn deddfwriaeth drwy'r cyfeiriad at addoli 'ar y cyd' yn hytrach nag addoli 'corfforaethol'.

Mae Estyn yn arolygu gweithredoedd addoli ar y cyd ym mhob ysgol nad ydynt yn darparu addysg enwadol. Ym mhob ysgol arall, caiff gweithredoedd o addoli ar y cyd eu harchwilio gan arolygwyr a benodir gan gorff llywodraethu'r ysgol.

2. Senedd y DU

Mewn ateb i [Gwestiwn Ysgrifenedig Tŷ'r Arglwyddi](#) ar 26 Ionawr 2016, dywedodd yr Arglwydd Nash, yr Is-ysgrifennydd Gwladol dros Ysgolion:

“The Government does not plan to change the requirements for a daily act of collective worship. It is for schools to tailor their provision to suit the needs of their pupils, and parents can choose to withdraw their children from all or any part of collective worship.”

Wrth ystyried *Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006* (yng nghyfnod y Bil), nododd Cyd-bwyllgor Senedd y DU ar Hawliau Dynol fod [Adroddiad Rhif 28](#) (Hydref 2006) Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn nodi fel a ganlyn:

“Children enjoy the right to freedom of thought, conscience and religion under both Article 9 of the European Convention on Human Rights and Article 14(1) of the UN Convention on the Rights of the Child. The UK is also under an obligation to assure to the child who is capable of forming his or her own views the right to express those views freely in all matters affecting the child, and to give those views due weight in accordance with the age and maturity of the child.”

Roedd y Pwyllgor yn argymhell y canlynol:

“In our view the current legal framework is incompatible with these obligations in so far as it fails to guarantee a child of sufficient maturity, intelligence and understanding the right to withdraw from both compulsory religious education and collective worship. An amendment to the Bill which gave pupils over the age of 16 the right to withdraw from collective worship would therefore reduce the extent of the incompatibility of the present law with the UK's human rights obligations, but it would not remove that incompatibility altogether.

To remove the incompatibility, in our view, it would be necessary to go further in two respects: first, by granting a right to withdraw from religious education as well as collective worship; and, second, by affording the right to withdraw from both religious education and collective worship to any pupil of sufficient maturity, understanding and intelligence to make an informed decision about whether or not to withdraw.”

3. Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Mae [Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc \(Cymru\) 2011](#) yn cynnwys ystyriaeth o'r Confensiwn a'r Protocolau Dewisol yng nghyfraith Cymru. Mae'r Mesur yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi 'sylw dyledus' i'r canlynol:

- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn;
- Y Protocol Dewisol i'r Confensiwn ar gynnwys plant mewn gwrthdrawiadau arfog;
- Y Protocol Dewisol i'r Confensiwn ar werthu plant, puteindra plant a phornograffi plant.

Ym mis Mehefin 2016, cyhoeddodd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ei [Sylwadau Clo](#) ar ba gynnydd sydd wedi'i wneud i gyflawni ar hawliau plant. Yn dilyn adolygiad ledled y DU, gwnaeth dros 150 o argymhellion. Mynegodd Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig bryder ynghylch addoli ar y cyd ar gyfer disgyblion yng Nghymru a Lloegr. Mae'n argymhell fel a ganlyn:

“The State party repeal legal provisions for compulsory attendance at collective worship in publicly funded schools and ensure that children can independently exercise the right to withdraw from religious worship at school.”

4. Gwaith ymchwil ar addoli ar y cyd

Ym mis Tachwedd 2015, cyhoeddodd Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a Dyniaethau adroddiad, [Collective Worship and Religious Observance in Schools: An Evaluation of Law and Policy in the UK](#). Roedd yn nodi:

“The statutory duty to provide an act of collective worship/religious observance in schools has been controversial for decades. Issues include: disagreement about the appropriateness of such acts in an increasingly pluralistic, multicultural UK; the degree to which the current system properly affords respect for the rights of individuals and minority groups, including those with no religious faith; and concerns that the present arrangements do not adequately develop the spiritual/moral education of pupils, or promote a community spirit and shared values in schools.”

Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at rai pryderon cyffredin ynghylch addoli ar y cyd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Diffyg rhesymeg gydlynol ar gyfer yr ysgol
- Methiant i ddiogelu safonau Hawliau Dynol; a
- Diffyg eglurder ac amwysedd sy'n golygu y gall penaethiaid arfer dylanwad gormodol neu amhriodol dros gynnwys yr addoliad neu fod yn anfodlon neu'n amharod i wneud penderfyniadau ynghylch cynnwys addoli ar y cyd.

Mae'r adroddiad yn awgrymu, pe bai'r ddyletswydd yn cael ei diddymu, efallai y bydd ysgolion am barhau i gwrdd. Byddai angen cael mecanwaith i sicrhau bod cyfarfodydd o'r fath yn gynhwysol ac yn parchu uniondeb disgyblion, rhieni ac athrawon. Mae hefyd yn awgrymu y gallai dileu'r ddyletswydd fod yn gyfle a gollir i ddatblygu disgyblion a chydlynad cymdeithasol.

Roedd yr adroddiad yn nodi dulliau posibl ar gyfer diwygio:

- Dileu'r gofyniad bod yn rhaid i weithredoedd addoli ar y cyd fod o natur Gristnogol fras;
- Disodli'r ddyletswydd gyda dyletswydd ar gyfer 'amser i feddwl'.

Roedd yn cynnwys argymhellion penodol ar gyfer Cymru:

- Dylai Cylchlythyr 10/94, *Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd* gael ei ddiwygio ar frys er mwyn adlewyrchu anghenion cyfoes y system addysg yng Nghymru, yn enwedig yn sgil argymhellion Donaldson;
- Dylai statws anstatudol y cylchlythyr fod yn hysbys yn eang i ysgolion, Cyngorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol ac Estyn;
- Dylai Estyn adolygu ei ganllawiau arolygu a rhoi mwy o bwyslais ar agwedd gyfunol y gweithgarwch;
- Wrth adolygu a gwneud penderfyniadau yn y maes hwn, dylai Gweinidogion Cymru roi sylw dyledus i hawliau plant a phobl ifanc fel sy'n ofynnol yn sgil y Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru).

Adolygiad o'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru

Roedd adolygiad yr Athro Graham Donaldson o'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru, *Dyfodol Llwyddiannus* (Chwefror 2015) yn cyfeirio at **addysg grefyddol**, yn hytrach nag addoli ar y cyd. Roedd yn argymhell y dylai addysg grefyddol fod yn rhan o Faes Dysgu a Phrofiad Dyniaethau, a dylai barhau i fod yn ofyniad cwricwlwm statudol o'r dosbarth derbyn. Derbyniodd Llywodraeth Cymru bob un o argymhellion yr Athro Donaldson yn llawn. Ar [15 Gorffennaf 2015, wrth ymateb i gwestiwn yn y Cyfarfod Llawn](#), dywedodd Huw Lewis, y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd, mewn perthynas ag addysg grefyddol:

"Hoffwn fanteisio ar y cyfle i gyhoeddi y prynhawn yma fy mod yn credu ein bod angen trawsnewid ein cwricwlwm addysg grefyddol ar hyn o bryd. Byddwn yn haeru y dylem ail-enwi'r cwricwlwm Addysg Grefyddol a'i newid yn elfen crefydd, athroniaeth a moeseg y cwricwlwm, lle ceir ymrwymiad pendant i ganiatáu i blant fyfyrion ynghylch syniadau am foeseg a dinasyddiaeth a'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn ddinesydd mewn gwlad rydd."

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag 'Ysgolion Arloesol' a chonsortia rhanbarthol ar ddyluniad y chwe Maes Dysgu a Phrofiad yn y cwricwlwm newydd. Disgwylir i fwy o wybodaeth am gynnwys y cwricwlwm fod ar gael yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

5. Deisebau blaenorol

Yn 2012, trafododd y Pwyllgor Deisebau ddeiseb a oedd yn galw ar y Cynulliad i annog Llywodraeth Cymru i [ddiogelu'r arfer o addoli ar y cyd fel gofyniad cyfreithiol](#) a deiseb yn [galw i addoli ar y cyd gael ei ddiddymu](#). Ar 15 Mai 2012, ysgrifennodd [Leighton Andrews, y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd](#) at y Pwyllgor:

"I recognise that collective worship is an important part of school life. In our multicultural country, it can be used as a way of supporting pupils' spiritual development and providing all pupils, irrespective of their family background, aged and aptitudes, with opportunities to explore and express what is of value in life in an open reflective way. With this in mind, I am not considering a change to the status of collective worship within schools in Wales."

Oherwydd ymateb diamwys y Gweinidog ar y pryd, cafodd y ddwy ddeiseb eu cau.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

Kirsty Williams AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-765
Ein cyf/Our ref KW/00836/17

Mike Hedges AC
Cadeirydd - Y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

government.committee.business@cymru.gsi.gov.uk

25 Mai 2017

Annwyl Mike

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 23 Mai am Ddeiseb P-05-765, ynghylch cadw'r canllawiau presennol ar gyfer cynullïadau crefyddol/ addoli ar y cyd.

Hoffwn ddiolch ichi am roi cyfle imi roi fy safbwyntiau cyn i'r Pwyllgor Deisebau ystyried y ddeiseb yn ffurfiol.

Fy marn i ar addoli ar y cyd yw y dylai fod yn sensitif i'r amrywiaeth o gredoau a'r rheini nad oes ganddynt gredoau o fewn yr ysgol, ac y dylai roi'r cyfle i ddisgyblion addoli, heb eu hannog i wneud rhywbeth sy'n groes i ddysgeidiaeth eu crefydd neu eu credoau eu hunain. Er enghraifft, gallai cyfnodau o weddi fod yn benagored i ddisgyblion gael adrodd eu gweddïau eu hunain yn dawel neu ystyried materion moesol neu athronyddol.

Mae'r gofynion deddfwriaethol penodol o ran addoli ar y cyd mewn ysgolion wedi'u nodi yn Adran 70 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, sy'n nodi bod yn rhaid cynnal sesiwn addoli ar y cyd bob dydd, ac yn Atodlen 20 Deddf Addysg 1996, sy'n amlinellu natur addoli ar y cyd.

Mater i ysgolion unigol yw mynd ati i gynllunio a chyflwyno sesiynau addoli ar y cyd. Mae'r gyfraith yn nodi y dylai'r rhan fwyaf o sesiynau addoli ar y cyd fod o natur gyfangwbl led-Gristnogol neu led-Gristnogol yn bennaf ac, felly, mae'n dderbyniol cynnal sesiwn addoli ar y cyd yn achlysurol nad yw'n amlwg gysylltiedig â'r ffydd Gristnogol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400


Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 50
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gall rhieni wneud cais i'w plentyn gael ei dynnu allan o sesiynau addoli ar y cyd a rhaid i ysgolion gytuno i geisiadau o'r fath bob amser.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Kirsty Williams'.

Kirsty Williams AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

Eitem 2.3

P-05-761 Mynnu cyllid gan Lywodraeth Cymru i gefnogi Autism Spectrum Connections Cymru

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Aled Thomas, ar ôl casglu 148 o lofnodion ar wefan e-ddeiseb arall.

Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu cyllid i gefnogi Autism Spectrum Connections Cymru.

Mae'r elusen hon yn unigryw yng Nghymru. Nid yw Autism Spectrum Connections Cymru yn cael dim cyllid gan y Llywodraeth ar hyn o bryd. Mae'n dibynnu'n llwyr ar gyllid gan ffynonellau nad ydynt, o angenrheidrwydd, yn gallu ei chefnogi'n barhaol.

Mae'r ganolfan galw heibio agored, unigryw hon yn chwarae rhan bwysig o ran gwella bywydau pobl sy'n byw gydag awtistiaeth yng Nghymru.

Hoffem gael sicrwydd gan Lywodraeth Cymru y bydd yr elusen hon yn parhau i fod ar agor ac yn cael ei hariannu'n llawn o hyd.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- De Caerdydd a Phenarth
- Canol De Cymru

Papur Briffio ar gyfer y Pwyllgor Deisebau

Rhif y ddeiseb: [P-05-0761](#)

Teitl y ddeiseb: **Mynnu cyllid gan Lywodraeth Cymru i gefnogi Autism Spectrum Connections Cymru**

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu cyllid i gefnogi Autism Spectrum Connections Cymru.

Mae'r elusen hon yn unigryw yng Nghymru. Nid yw Autism Spectrum Connections Cymru yn cael dim cyllid gan y Llywodraeth ar hyn o bryd. Mae'n dibynnu'n llwyr ar gyllid gan ffynonellau nad ydynt, o angenrheidrwydd, yn gallu ei chefnogi'n barhaol.

Mae'r ganolfan galw heibio agored, unigryw hon yn chwarae rhan bwysig o ran gwella bywydau pobl sy'n byw gydag awtistiaeth yng Nghymru.

Hoffem gael sicrwydd gan Lywodraeth Cymru y bydd yr elusen hon yn parhau i fod ar agor ac yn cael ei hariannu'n llawn o hyd.

Autism Spectrum Connections Cymru a pholisi awtistiaeth yng Nghymru

Cyflwyniad

Mae awtistiaeth yn gyflwr datblygiadol sy'n effeithio ar allu person i gyfathrebu a rhyngweithio â phobl eraill. Mae'n gyflwr sbectrwm, ac felly mae'n effeithio ar bobl mewn ffyrdd gwahanol; gall person ag awtistiaeth gael nodweddion cysylltiedig eraill, fel sensitifrwydd synhwyraidd neu anabledd dysgu.

Mae Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru yn amcangyfrif bod tua 34,000 o bobl yng Nghymru yn awtistig, a bod awtistiaeth yn rhan o fywyd bob dydd tua 136,000 o bobl.

Autism Spectrum Connections Cymru

Mae [gan wefan Mentrau Awtistiaeth](#) wybodaeth am Autism Spectrum Connections Cymru.

Mae Autism Spectrum Connections Cymru yn rhan o grŵp elusennau Mentrau Awtistiaeth. Mae'n darparu gwasanaeth i bobl sydd â chyflyrau ar y sbectrwm awtistig, eu teuluoedd a'u gofalwyr yng Nghymru. Mae'n rhedeg siop un stop yng Nghaerdydd ar gyfer pobl sydd ag awtistiaeth, lle gall oedolion sydd â chyflwr ar y sbectrwm awtistiaeth gael mynediad at wahanol fathau o gyngor a chymorth a chymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau

cymdeithasol. Mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn bennaf ar gyfer pobl dros 16 oed sydd wedi cael diagnosis o syndrom Asperger neu awtistiaeth uchel-weithredol.

Mae'r gwasanaeth, sy'n cael ei gynnig yn rhad ac am ddim, yn agored i unrhyw un sydd â diagnosis o awtistiaeth ac sy'n byw yn yr ardaloedd a ganlyn: Caerdydd, Casnewydd, Caerffili, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Bro Morgannwg, Blaenau Gwent, Tor-faen, Sir Fynwy a Phen-y-bont.

Mae Autism Spectrum Connections Cymru yn nodi mai ei fwriad yw gweithio mewn partneriaethau go iawn gyda phobl sydd â chyflwr ar y sbectrwm awtistig, eu teuluoedd a phobl eraill sy'n bwysig iddynt. Mae ei ddull gweithredu unigolyddol yn canolbwyntio ar y person, a'r bwriad yw galluogi pobl i wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt a'u cynorthwyo i ddod yn bobl lwyddiannus sydd ag awtistiaeth.

Awtistiaeth yng Nghymru: crynodeb o fentrau polisi a mentrau deddfwriaethol allweddol Llywodraeth Cymru

Y Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig

Cafodd [y Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig](#) ei lansio gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2008. Hwn oedd y cynllun cyntaf o'i fath yn y DU. Roedd y cynllun yn cyflwyno canllawiau ar awtistiaeth i asiantaethau lleol, gan gynnwys awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol. Darparwyd cyllid i awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru at ddibenion datblygu cymorth a oedd yn canolbwyntio ar awtistiaeth. Cafodd y cyllid hwn ei neilltuo hyd at fis Ebrill 2015. Ar ôl hynny cafodd ei drosglwyddo i gyllidebau cyffredinol awdurdodau lleol drwy'r grant cynnal refeniw.

Mae'r camau gweithredu allweddol sydd wedi'u nodi yn y cynllun gweithredu yn cynnwys:

- penodi arweinydd awtistiaeth ym mhob awdurdod lleol;
- sefydlu grŵp rhanddeiliaid lleol ym mhob ardal cyngor a ddylai gynnwys rhieni, gofaluwr a phobl ag awtistiaeth; a
- datblygu cynlluniau gweithredu lleol ynghylch awtistiaeth.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru [ddiweddariad o'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig](#) ar 30 Tachwedd 2016. Mae gan y cynllun ar ei newydd wedd dri maes blaenoriaeth allweddol:

- Codi ymwybyddiaeth, gwybodaeth a hyfforddiant;
- Asesu a diagnosis – gan gynnwys cyflwyno targed amser aros 26 wythnos o'r atgyfeiriad i'r apwyntiad asesu cyntaf ar gyfer plant ag awtistiaeth; a
- Diwallu anghenion cymorth – gan gynnwys ymdrechion i wella'r gefnogaeth a ddarperir i blant a phobl ifanc mewn addysg drwy'r rhaglenni 'Dysgu gydag Awtistiaeth'.

Bydd y cynllun yn cael ei gefnogi gan wasanaeth newydd ar gyfer pobl o bob oed, sef y [Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Cenedlaethol](#), a fydd yn cael ei gyflwyno ym mhob bwrdd iechyd ar draws Cymru erbyn 2019. Bydd timau arbenigol ym mhob rhanbarth yn darparu diagnosis i oedolion, cymorth yn y gymuned, a chyngor a gwybodaeth i oedolion sydd ag awtistiaeth, ac i rieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol.

Yn wreiddiol, bwriad Llywodraeth Cymru oedd ariannu'r gwasanaeth drwy [fuddsoddiad o £6 miliwn dros gyfnod o dair blynedd](#). Fodd bynnag, ym mis Mawrth 2017, cyhoeddodd y Llywodraeth [fuddsoddiad ychwanegol £7 miliwn dros gyfnod o bedair blynedd](#).

Y bwriad yw y bydd y cyllid hwn hefyd yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu adnoddau awtistiaeth gwell, fel y prosiect "[Weli Di Fi?](#)" a ddatblygwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Bwriad y fenter hon yw hyrwyddo dealltwriaeth a chynhwysiant mewn perthynas ag awtistiaeth o fewn cymunedau yng Nghymru, a hynny drwy greu taflenni a phosteri i'w rhoi mewn siopau, banciau a busnesau eraill, yn ogystal â phractisau deintyddion a meddygon teulu. Yn ogystal, gall pobl ag awtistiaeth ddewis a ydynt am wneud pobl eraill yn ymwybodol o'u hawtistiaeth drwy wisgo band llawes neu ddangos cerdyn.

Yn ogystal â'r gwasanaeth awtistiaeth integredig newydd, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi gwelliannau i'r drefn o ddarparu diagnosis a chefnogaeth niwroddatblygiadol i blant drwy'r rhaglen wella [Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc](#), gan ddyrannu cyllid blyneddol o £2 miliwn at y dibenion hyn.

Mae'r Cynllun Gweithredu Strategol wedi'i seilio ar [Gynllun Cyflawni Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig ar gyfer 2016–2020](#), sy'n cynnwys manylion ynghylch y camau i'w cymryd a'r trefniadau ar gyfer eu monitro a'u mesur.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Daeth [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#) i rym mewn perthynas â'r rhan fwyaf o'i dibenion ym mis Ebrill 2016. Mae'r Ddeddf yn darparu fframwaith newydd ar gyfer darparu gwasanaethau cymdeithasol i blant ac oedolion yng Nghymru, ac yn nodi dyletswyddau awdurdodau lleol mewn perthynas ag oedolion sydd angen gofal a chefnogaeth, plant sy'n derbyn gofal, y rhai sy'n gadael gofal, a phlant sy'n cael eu lletya, gan gynnwys plant sydd ag awtistiaeth.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn darparu'r [fframwaith a rhai o'r offerynnau y mae eu hangen](#) ar gyfer datblygu gwasanaethau awtistiaeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- y gofyniad ar awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth;

- y cam o greu byrddau partneriaeth rhanbarthol er mwyn sicrhau bod byrddau iechyd, awdurdodau lleol a'r trydydd sector yn cydweithio;
- y pŵer i Weinidogion Cymru ddyroddi codau (gan gynnwys cod ar awtistiaeth) ynghylch y broses o arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol;
- y ddyletswydd ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd i asesu anghenion gofal a chymorth eu poblogaethau a'r nodi gwasanaethau ataliol y mae eu hangen i'w diwallu, gan gynnwys gwasanaethau i bobl sydd ag awtistiaeth;
- y gofyniad ar awdurdodau lleol i lunio cofrestrau gwirfoddol o blant anabl ac, os ydynt yn dymuno gwneud hynny, oedolion anabl; a
- darpariaethau yn y Ddeddf ar gyfer pontio o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion.

Y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

Cafodd [y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\)](#) ei gyflwyno gan Lywodraeth Cymru ar 12 Rhagfyr 2016. Ar hyn o bryd, mae'n destun gwaith craffu gan y Cynulliad (Cyfnod 2). Mae'r Bil yn ceisio diwygio'r trefniadau ar gyfer diwallu anghenion plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys awtistiaeth.

Ar hyn o bryd, mae trefniadau a deddfwriaeth ar wahân ar gyfer plant sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) hyd at 16 oed a phobl dros 16 oed sydd ag Anawsterau ac/neu Anabledau Dysgu. Byddai'r Bil yn eu disodli ac yn cyflwyno fframwaith deddfwriaethol sengl ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc hyd at 25 oed sy'n cael eu hadnabod fel rhai sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

Ceir rhagor o wybodaeth am y Bil yn un o [gyhoeddiadau'r Gwasanaeth Ymchwil](#).

Bil Awtistiaeth (Cymru)

Enillodd Paul Davies AC balot Biliau'r Aelodau ar 28 Mawrth 2017. Yn sgil hynny, mae'n ceisio cyflwyno Bil o dan y teitl [Bill Awtistiaeth \(Cymru\)](#).

Prif ddiben Bill Awtistiaeth (Cymru) yw “darparu ar gyfer diwallu anghenion plant ac oedolion sydd â chyflyrau ar y sbectrwm awtistig yng Nghymru, gyda'r nod o ddiogelu hawliau plant ac oedolion awtistig yng Nghymru a hyrwyddo'r hawliau hynny.” Byddai'r Bil hefyd yn “cydnabod y cyflwr yn statudol, gan fod awtistiaeth yn gyflwr ynddo'i hun.”

Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil arfaethedig yn nodi mai bwriad y Bil yw ategu'r mesurau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn y blynyddoedd diwethaf yn hytrach na'u disodli, ac ategu darpariaethau'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru).

Cafodd y Bil arfaethedig ei [groesawu gan y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth](#).

Cynhaliwyd dadl ar ganiatâd i symud ymlaen ddydd Mercher 14 Mehefin 2017, pan gytunodd y Cynulliad y dylai'r Bil fynd yn ei flaen. Yn sgil hynny, mae gan Paul Davies AC 13 mis i gyflwyno'r Bil.

Rebecca Evans AC/AM
Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Social Services and Public Health



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref RE/00569/17

Mike Hedges AM
Chair - Petitions Committee
National Assembly for Wales
Ty Hywel
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

9 June 2017

Dear Mike,

Thank you for your letter addressed to Vaughan Gething AM, Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport, about the petition received from Aled Thomas about support for Autism Spectrum Connections Cymru. I am responding as this falls within my Ministerial portfolio.

The Welsh Government is fully committed to working to improve the lives of children, young people and adults with autism and their families and carers. We are aware of the challenges people with autism face every day and it is crucial that support services are in place where and when they are needed.

Last November, we published our Autistic Spectrum Disorder Strategic Action Plan. This sets out a number of key actions, some of which will be delivered through a new National Integrated Autism Service. The integrated service is designed to provide extra support for children, adults and families to help them avoid crisis and the need for more intensive support. This innovative service will be all age, bringing together health, social care, education and other services to provide a single point of contact, preventing people from being passed between services unnecessarily. It will support a team of specialists including psychology, speech and language therapy, occupational therapy and support workers from across health and social care. As we develop and roll out the service, we will be seeking the views of people with autism to ensure the services are meeting identified needs.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 58


We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

I initially allocated £6 million over the three years to 2019 to support the development and roll-out of the National Integrated Autism Service across Cardiff and the Vale, Cwm Taf, Gwent and Powys. In March, I announced further funding of £7 million to enable all regions in Wales to develop an integrated service by 2018 and for all to be funded up to 2021.

Funding has been allocated to regional partnership boards through our Intermediate Care Fund. Each region is developing their local services to enhance, not replace, current provision and they will be working in partnership with existing services including third sector providers. I am pleased that the integrated service in Powys is now live and services in Cardiff and the Vale, Cwm Taf and Gwent will all be in place over the next few months. The remaining regions are beginning the development of their integrated services this year.

The Welsh Government values the vital work undertaken by the third sector but is not able to provide permanent funding to any organisation. Therefore I am not able to commit to the petition submitted by Aled Thomas about support for Autism Spectrum Connections Cymru.

We do though currently operate a grant scheme for third sector organisations working in the health and social care sector on an all-Wales basis. The Sustainable Social Services Third Sector Grant Scheme was introduced in 2016 and nearly £22 million of funding was awarded to 32 projects supporting a wide range of people with support needs. These include vulnerable children, young people and their families, looked after children and care leavers, older people, people with learning disabilities, physical and/or sensory disabilities and carers ensuring that every part of the community can benefit from the funding available. This grant scheme runs for three years until 2018-19. Should a follow-on grant scheme be agreed, then Autism Spectrum Connections Cymru would be able to submit an application should they meet the criteria for the grant.

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Jaw.' on the top line and 'Rebecca' on the bottom line.

Rebecca Evans AC/AM

Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Social Services and Public Health

P-05-761 Demand Funding from the Welsh Government to Support Autism Spectrum Connections Cymru – Correspondence from the Petitioner to the Committee, 16.06.17

Dear Senedd Petitions.

Reference: RE/00569/17

Thank you for your recent correspondence.

I am writing to you with a statement that consists of my views in light of the new correspondence from the Welsh Government regarding my petition: P-05-761.

The statement begins in the next paragraph:

Having read the Strategic Action Plan for autism and the proposed method of delivery, I do not see evidence that third sector providers have been sufficiently or effectively utilised.

In recent correspondence with Rebecca Evans AM, she had indicated that £13million of public money is to be spent on a National Integrated Autism Service. Rebecca Evans AM had previously intimated that the IAS would replace existing services, however, she now says that it will enhance existing local services including those provided by the third sector.

Autism Spectrum Connections Cymru provide a one stop shop service which provides support for over 500 adults and young people in South East Wales. I and many others have benefitted from this service greatly. I have accessed a whole range of services; 1:1 support, drop-ins, supported social groups, post-diagnostic sessions, employment workshops, employment support and tailored support for me as an individual with autism. If I may say, the other autism support providers have been sub-standard compared to Autism Spectrum Connections Cymru, or at least, they haven't been as specialised or effective on a day to day basis as any of the other autism support providers. I have previously struggled to access appropriate service and I value the work of this charity along with many others who have signed this petition.

From what I understand of the social services and well-being act, there is statutory responsibility for the Welsh Government and local authorities to engage in partnership with the third sector. I have asked Rebecca Evans AM to provide details of how the £13million allocated to the National Integrated Autism Service will fulfil this duty.

As a person living with autism and from speaking to many other autistic adults, I have not felt or been asked my opinion on what services we feel we need.

Rebecca Evans AM has stated that a scoping exercise was undertaken in 2015 to design new services for adults with autism in Wales. Nobody who I have been in contact with was consulted or have any knowledge of this scoping exercise.

It is unclear how the NIAS is going to enhance and support the existing service provided by Autism Spectrum Connections Cymru.

Rebecca Evans AM has made the point that Autism Spectrum Connections Cymru could apply for Sustainable Social Services Grant, however, if successful funding from them would not be forthcoming for at least two years. I feel it is unjust and wrong that funding cannot and will not be given to the invaluable service when there is £13million available specifically for Autism.

As such I and many others request that the Welsh Government effectively engage with and financially support Autism Spectrum Connections Cymru rather than replicate many of the services they already provide.

Yours Sincerely,

Aled Thomas.

Eitem 2.4

P-05-762 Symud Cynulliad Cymru o Gaerdydd

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Royston Jones, ar ôl casglu 53 o lofnodion ar-lein.

Geiriad y ddeiseb:

Rydym yn galw am symud y Cynulliad Cenedlaethol o Gaerdydd i Aberystwyth er mwyn dechrau 'ail-gydbwysu' bywyd ac economi cenedlaethol Cymru.

Gwybodaeth ychwanegol:

Mae Caerdydd yn ffynnu, ac yn tyfu ar gyfradd esbonyddol, tra bod y rhan fwyaf o Gymru yn aros yn ei hunfan, sy'n ei gwneud yn glir nad yw'r model presennol Caerdydd/Cymru o ddatblygu economaidd yn gweithio ar gyfer 80 y cant o'r wlad.

Mae Caerdydd yn cael y gyfran fwyaf o fuddsoddiad a swyddi yn cael effaith andwyol ar weddill y wlad, ac er bod y duedd hon yn weladwy yn y degawdau sydd wedi mynd heibio, mae wedi ennill mwy o fomentwm a dod hyd yn oed yn fwy niweidiol er lles y genedl ers i Gynulliad Cenedlaethol Cymru eistedd am y tro cyntaf ym 1999.

Yn waeth na hynny, mae tystiolaeth gynyddol o lygredd; y math o lygredd sy'n anochel pan fo'r rheini sydd â dylanwad gwleidyddol a rheolaeth ar y pwrs cyhoeddus yn cyfarfod yn rheolaidd, mewn cyd-destunau cymdeithasol a chyd-destunau eraill, y rheini sy'n ceisio manteisio ar gysylltiadau o'r fath. Credwn, yn y byrdymor, mai'r ffordd hawsaf o wella'r anghydbwysedd anghynladwy a chynyddol hwn, a'r bygythiad cynyddol o lygredd, yw symud Cynulliad Cymru a'i hasiantaethau a'i hadrannau amrywiol y tu allan i Gaerdydd.

Byddai Aberystwyth yn leoliad delfrydol a chanolog ar gyfer y Cynulliad a'i staff cymorth. Gellid lleoli asiantaethau eraill o amgylch y wlad, oherwydd yng nghyfnod y rhyngryd a fideo-gynadledda, nid oes angen i weision sifil ac eraill weithio y drws nesaf i'w gilydd.

Byddai'r buddion i rai o'r rhannau o Gymru sydd wedi'u hesgeuluso fwyaf yn gwneud iawn yn fuan am y costau cychwynnol sy'n ymwneud â'r adleoliadau.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Dwyfor Meirionydd
- Canolbarth a Gorllewin Cymru

Symud Cynulliad Cymru o Gaerdydd

Y Pwyllgor Deisebau | 27 Mehefin 2017

Petitions Committee | 27 June 2017

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil:

Rhif y ddeiseb: P-05-762

Teitl y ddeiseb: Symud Cynulliad Cymru o Gaerdydd

Testun y ddeiseb: Rydym yn galw am symud y Cynulliad Cenedlaethol o Gaerdydd i Aberystwyth er mwyn dechrau 'ail-gydbwysu' bywyd ac economi cenedlaethol Cymru.

Mae Caerdydd yn ffynnu, ac yn tyfu ar gyfradd esbonyddol, tra bod y rhan fwyaf o Gymru yn aros yn ei hunfan, sy'n ei gwneud yn glir nad yw'r model presennol Caerdydd/Cymru o ddatblygu economaidd yn gweithio ar gyfer 80 y cant o'r wlad.

Mae Caerdydd yn cael y gyfran fwyaf o fuddsoddiad a swyddi yn cael effaith andwyol ar weddill y wlad, ac er bod y duedd hon yn weladwy yn y degawdau sydd wedi mynd heibio, mae wedi ennill mwy o fomentwm a dod hyd yn oed yn fwy niweidiol er lles y genedl ers i Gynulliad Cenedlaethol Cymru eistedd am y tro cyntaf ym 1999.

Yn waeth na hynny, mae tystiolaeth gynyddol o lygredd; y math o lygredd sy'n anochel pan fo'r rheini sydd â dylanwad gwleidyddol a rheolaeth ar y pwrs cyhoeddus yn cyfarfod yn rheolaidd, mewn cyd-destunau cymdeithasol a chyd-destunau eraill, y rheini sy'n ceisio manteisio ar gysylltiadau o'r fath.

Credwn, yn y byrdymor, mai'r ffordd hawsaf o wella'r anghydbwysedd anghynladwy a chynyddol hwn, a'r bygythiad cynyddol o lygredd, yw symud Cynulliad Cymru a'i hasiantaethau a'i hadrannau amrywiol y tu allan i Gaerdydd.

Byddai Aberystwyth yn leoliad delfrydol a chanolog ar gyfer y Cynulliad a'i staff cymorth. Gellid lleoli asiantaethau eraill o amgylch y wlad, oherwydd yng nghyfnod y rhyngryd a fideo-gynadledda, nid oes angen i weision sifil ac eraill weithio y drws nesaf i'w gilydd.

Byddai'r buddion i rai o'r rhannau o Gymru sydd wedi'u hesgeuluso fwyaf yn gwneud iawn yn fuan am y costau cychwynnol sy'n ymwneud â'r adleoliadau. Mae parhau gyda'r trefniant

presennol yn condemnio Cymru i ddyfodol fel dinas-wladwriaeth, gyda'r holl fanteision yn mynd i Gaerdydd. Nid dyma'r dyfodol yr ydym am ei gael i Gymru.

Cefndir

Yn dilyn y refferendwm a gymeradwyodd ddatganoli ym mis Medi 1997, cymerwyd yn ganiataol y byddai'r Cynulliad newydd wedi'i leoli yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd, o ystyried ei agosrwydd at adeiladau'r Goron, sef lleoliad y Swyddfa Gymreig.

Dechreuodd y trafodaethau ar 9 Hydref 1997 rhwng Cyngor Caerdydd a'r Swyddfa Gymreig, ond daethant i ben ar 24 Tachwedd pan wrthododd Llywodraeth y DU y fargen a gynigiwyd gan Gaerdydd. Ym mis Rhagfyr 1997, cyhoeddodd y Swyddfa Gymreig ddogfen ymgynghori a oedd yn awgrymu gwahanol leoliadau a cheisiadau i wahodd. Derbyniodd y Swyddfa Gymreig 24 o geisiadau ledled Cymru erbyn 31 Ionawr 1998. Ym mis Chwefror 1998, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol Ron Davies restr fer o bedwar lleoliad – tri yng Nghaerdydd ac un yn Guildhall Abertawe. Ym mis Ebrill, gwnaed y cyhoeddiad terfynol mai Bae Caerdydd fyddai'r lleoliad. Roedd disgwyl adeilad newydd, ond defnyddiwyd Tŷ Hywel yn lleoliad dros dro. Daeth y Pierhead hefyd yn rhan o ystâd y Cynulliad. Agorwyd drysau'r adeilad newydd – [y Senedd](#) – yn 2006.

Mae gan y Cynulliad hefyd [ganolfan wybodaeth yng Ngogledd Cymru](#) ym Mae Colwyn.

Ers 2007, mae gwahaniaeth rhwng y staff sy'n gweithio i'r Cynulliad a gyflogir gan **Gomisiwn y Cynulliad** a'r gweision sifil sy'n gweithio i **Lywodraeth Cymru**.

Daeth y Swyddfa Gymreig ym Mharc Cathays yn Bencadlys i Lywodraeth Cymru, ond ers hynny mae Llywodraeth Cymru wedi agor [swyddfeydd ledled Cymru](#). Mae gan Lywodraeth Cymru swyddfeydd yng Nghaerdydd, Caernarfon, Dolgellau, Cyffordd Llandudno, Wrecsam, Llandrindod, Y Drenewydd, Caerfyrddin, Hwlfordd, Aberdaugleddau, Abertawe, Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful, Nantgarw, Casnewydd, Trefforest, Bedwas a Chaerffili. Mae swyddfa hefyd wedi'i lleoli yn [Aberystwyth](#) lle mae'r rhan fwyaf o'r staff sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth.

Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Adroddiad blynyddol ar Gyflwr yr Ystâd. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am niferoedd staff a gyflogir mewn gwahanol rannau o Gymru. Dyma'r niferoedd ar gyfer 2015/16:

Gogledd Cymru 522

Canolbarth Cymru 470

De-orllewin Cymru 452

De-ddwyrain Cymru 1,279

Caerdydd 2,647

Yn 2014, cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru [adroddiad](#) ar Strategaeth Leoli Llywodraeth Cymru. Roedd yr adroddiad hwn yn archwilio a yw Rhaglen y Strategaeth Leoli wedi cyflawni ei hamcanion mewn modd sy'n cynnig gwerth am arian. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod Llywodraeth Cymru wedi cyflawni amcanion y Strategaeth Leoli, ond bod ansicrwydd o ran y gwerth am arian yr eodd y Rhaglen yn ei gynnig. Er gwaethaf y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi creu'r adeiladau swyddfa newydd i'r ansawdd ddisgwyliedig ac o fewn costau'r contract, ychydig o ystyriaeth a roddwyd i opsiynau eraill o ran lleoliad, roedd diffyg amcangyfrif cadarn o ran costau'r rhaglen, ac nid yw graddau'r buddion parhaus sy'n deillio o'r Rhaglen bellach yn cael eu monitro.

Nodwyd yn yr adroddiad:

Amcan eglur Llywodraeth Cymru oedd cynyddu cyfran y staff a weithiai y tu allan i Gaerdydd, ond llesteiriwyd y gwaith o gynllunio'r gweithlu gan gyfyngiadau ar wybodaeth am niferoedd staff, y sylw cyfyngedig i opsiynau o ran adeiladau, ac amcangyfrif rhy isel o gostau'r Rhaglen.

Aed ymlaen i ddweud:

Mae'r Rhaglen wedi cynyddu canran y staff sy'n gweithio y tu allan i Gaerdydd, ond nid yw Llywodraeth Cymru wedi adleoli cymaint o weithwyr ag a fwriadwyd.

Camau gweithredu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Trafododd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Pedwerydd Cynulliad adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar [Strategaeth Leoli Llywodraeth Cymru yn 2014](#). Cafodd y Pwyllgor ei friffio gan Swyddfa Archwilio Cymru a chytunodd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru. Rhoddodd yr Ysgrifennydd Parhaol [ymateb manwl](#) i argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru. Penderfynodd y Pwyllgor beidio â chynnal ymchwiliad i'r Strategaeth Leoli.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

Mike Hedges AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Eich cyf:
Ein cyf: PO184/EJ/RR

14 Mehefin 2017

Annwyl Mike

Deiseb P-05-762 Symud Cynulliad Cymru o Gaerdydd

Diolch am eich llythyr dyddiedig 15 Mai 2017. Mae'r Llywydd wedi gofyn i Gomisiwn y Cynulliad ystyried cynnwys y llythyr a rhoi ein barn ar y mater hwn i'r Pwyllgor Deisebau.

Fel Comisiwn, rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw cael sefydliadau cenedlaethol mewn lleoliadau ledled Cymru, er mwyn sicrhau bod ffyniant economaidd a chyfleoedd cyflogaeth yn cael eu gwasgaru ar draws y genedl.

Mae pob un o Gomisiynwr y Cynulliad yn rhannu'r egwyddor hon. Rydym yn derbyn bod yn rhaid i ni bob amser chwilio am ffyrdd newydd o estyn allan i bobl Cymru ac mi fyddwn yn ystyried opsiynau ar gyfer cynnal mwy o fusnes y Cynulliad mewn rhannau eraill o Gymru.

Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru swyddfa ym Mae Colwyn, yn ogystal â Bae Caerdydd. Efallai y bydd y deisebydd yn ymwybodol hefyd fod y sefydliad yn cynnal gwaith helaeth er mwyn ymgysylltu â chymunedau ym mhob rhan o'r genedl, a'n bod yn cyflogi swyddogion yn y gorllewin a'r gogledd i'r perwyl hwnnw. At hynny, rydym wedi datblygu strategaeth newydd ar gyfer ymgysylltu â phobl ifanc i ategu ein darpariaeth bresennol o ran addysg. Mae'r strategaeth newydd wedi ehangu cwrdd y gwaith hwn ac rydym wedi creu rhaglen ar gyfer



ymgysylltu â chymunedau, Senedd@, ac mae Senedd y DU yn y broses o fabwysiadu'r rhaglen honno.


Mae cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru yn cynnwys datblygu economaidd, ac mae ganddi swyddfeydd yng Nghaerdydd, Caernarfon, Cyffordd Llandudno, Wrecsam, Aberystwyth, Llandrindod, y Drenewydd, Caerfyrddin, Aberdaugleddau, Abertawe, Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful, Nantgarw, Casnewydd, Trefforest, Bedwas a Chaerdydd.

Fodd bynnag, mae'n briodol ym marn y Comisiwn mai prif leoliad senedd Cymru yw ein prifddinas, Caerdydd, a bod adeilad y Senedd yn ennill ei blwy fel cartref democratiaeth Cymru - ymhlith pobl Cymru a thu hwnt. Felly, ni fyddem yn dewis symud ein senedd i fan arall.

Gan gyfeirio at rai o'r pryderon a fynegwyd gan Mr Jones, mae'r Cynulliad Cenedlaethol, wrth gwrs, yn gyfrifol am graffu ar benderfyniadau Llywodraeth Cymru ynghylch ei pholisïau a'r broses o'u rhoi ar waith, ei chyfrifoldeb i gynrychioli *holl* ddinasyddion a chymunedau Cymru, ac, yn wir, y ffordd y mae'n gwario ei harian. Mae'r Aelodau yn cael cyfle yn rheolaidd i graffu ar Ysgrifenyddion y Cabinet o ran eu penderfyniadau ynghylch buddsoddi a chreu swyddi, ac o ran eu hymddygiad yn gyffredinol.

Mae'r deisebydd hefyd yn cyfeirio at "dystiolaeth gynyddol o lygredd" ond nid yw testun y ddeiseb yn cynnig unrhyw sail i gefnogi'r haerriad hwn. Mae gan Gomisiwn y Cynulliad weithdrefnau ar waith i ystyried unrhyw honiadau penodol pe bai unrhyw un am wneud cwyn.

Yn gywir



Elin Jones AC, Llywydd a Chadeirydd y Comisiwn
Suzy Davies AC, Comisiynydd y Cynulliad
Caroline Jones AC, Comisiynydd y Cynulliad
Adam Price AC, Comisiynydd y Cynulliad
Joyce Watson AC, Comisiynydd y Cynulliad





Eich cyf/Your ref: P-05-762

David Rowlands AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Ty Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

SeneddDeisebau@cynulliad.cymru

22 Mehefin 2017

Annwyl David,

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i llythyr y cyn-Gadeirydd dyddiedig 15 Mai yn gofyn am fy marn ar ddeiseb yn galw am symud y Cynulliad Cenedlaethol o Gaerdydd i Aberystwyth

Gan fod y ddeiseb yn ymwneud â Chynulliad Cenedlaethol Cymru, mae hyn yn fater i'r Comisiwn ac rwy'n deall bod y Llywydd wedi ymateb i chi ar hyn.

Rydym fel Llywodraeth Cymru yn cael ein harwain gan ein Strategaeth Leoli sydd wedi trawsnewid y Llywodraeth o sefydliad wedi ei leoli yng Nghaerdydd yn unig i un sydd wedi ei wasgaru ar draws Cymru, gan gynnwys Aberystwyth, Caerdydd, Caernarfon, Cyffordd Llandudno, Wrecsam, Llandrindod, Drenwydd, Caerfyrddin, Aberdaugleddau, Abertawe, Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful, Nantgarw, Casnewydd, Trefforest, Bedwas a Chaerdydd.

Yn gywir,

CARWYN JONES

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Eitem 2.5

P-05-764 Gwell Gwasanaethau Iechyd Meddwl ar gyfer Oedolion

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Megan Tudor, ar ôl casglu 84 o lofnodion ar-lein.

Geiriad y ddeiseb:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i wella'r driniaeth a roddir i oedolion mewn gwasanaethau iechyd meddwl gan ganolbwyntio'n benodol ar wella gwasanaethau yn y gymuned, fel y Timau Iechyd Meddwl Cymunedol, adrannau damweiniau ac achosion brys, gwasanaethau i gleifion mewnol a gwasanaethau ambiwlans.

Yn rhy aml, mae'r gwasanaethau iechyd meddwl wedi siomi oedolion. Mae'n warthus meddwl bod miloedd o oedolion bob dydd yn cael eu troi o'r neilltu pan fyddant yn crefu am gymorth. Cael eich derbyn i'r ysbyty a'ch asesu'n gyflym gan seiciatrydd sy'n dweud y dylech 'wneud rhywbeth i dynnu'ch sylw oddi wrth eich problemau, a byddwch yn iawn' a chael eich anfon adref.

Rwy'n deall y bu toriadau mawr i'r gwasanaethau hyn dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, ond a dweud yn gwir mae'n annerbyniol. Ni ddylid rhoi pris ar iechyd meddwl rhywun. Dylid rhoi gofal o'r un lefel i iechyd meddwl ag i iechyd corfforol.

Pam mae mwy o gefnogaeth ar gyfer plant sy'n dioddef o iechyd meddwl? Mae cymorth ar gael i blant ar ôl iddynt gael eu derbyn i'r ysbyty, ond nid oes dim ar gyfer oedolion. Efallai y gwneir addewidion y byddant yn derbyn cymorth gan wasanaethau penodol, ond mae'r addewidion yn mynd i'r gwellt yn gyflym. Rwy'n ffieiddio at y straeon erchyll rwyf wedi'u clywed gan bobl yn y system. Rwyf wedi gweld dros fy hun y diffyg gofal ar gyfer oedolion sy'n dioddef o iechyd meddwl gwael. Mae angen i hyn newid ac mae angen iddo newid yn gyflym. Nid wyf yn fodlon sefyll o'r neilltu mwyach a gwyllo hyn yn digwydd.

Rwyf am weld newidiadau enfawr yn y ffordd y mae cleifion sy'n oedolion yn cael triniaeth a chymorth. Dylai pob gwasanaeth gydlyn â'i gilydd i ddarparu'r gofal gorau posibl. Ar hyn o bryd mae'r trefniadau cyfathrebu rhwng gwasanaethau yn ddiffygiol, gan adael y claf heb gefnogaeth. Os oes angen gwasanaethau brys ar gleifion, mae angen i rywfaint o gymorth dilynol fod ar gael pan fyddant yn dychwelyd adref. Mae'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau ar agor rhwng 9am a 5pm, ond nid yw iechyd meddwl yn diflannu am 5pm ac mae angen mwy o gymorth hygyrch ar ôl yr oriau arferol. Rwyf am weld mwy o ofal gan staff hefyd. Efallai eu bod wedi cael yr

hyfforddiant sy'n ofynnol ar gyfer eu swydd ond nid oes empathi a pharch i'w gweld yn unman. Mae'n bryd i bethau newid.

Gwybodaeth ychwanegol:

lawn, beth am sgwrsio.

Gall iechyd meddwl fod yn dipyn o bwnc tabŵ o hyd, ond arhoswch gyda mi am funud. Rwyf am i chi ddychmygu teimlo'n hollol ar goll, yn wag ac heb reswm i fyw. Rydych am i'r boen ddod i ben felly rydych chi'n cymryd cam anoddaf eich bywyd; rydych yn gofyn am help. Yr unig beth rydych chi ei eisiau yw i rywun gydnabod pa mor ddrwg yw eich poen a gwneud iddo ddiflannu.

Mae'r meddygon / parafeddygon / heddlu / seiciatrydd yn dweud wrthy ch nad yw'n 'ddim byd i boeni amdano, rhaid eich bod chi'n cael diwrnod gwael ac mae hynny'n beth arferol'. Y gwir yw ei fod yn fwy na dim ond diwrnod gwael, rydych chi wedi methu â dianc o'r lle tywyll hwn ers llawer mwy na hynny. Nid ydynt yn gwrando, rydych chi'n mynd adref ac er nad oeddech yn meddwl ei bod yn bosibl, rydych chi'n teimlo'n waeth nag oeddech cyn gofyn am help.

NID DYMA SUT DYLAI PETHAU FOD! Dylai'r cymorth a'r gefnogaeth fod ar gael yn rhwydd i'r rhai sydd eu hangen, ond nid felly y mae hi a dyna beth y mae angen ei newid. Os bydd y ddeiseb hon yn gweithio, gallai achub miloedd o fywydau bob dydd. Dangoswch eich cefnogaeth trwy lofnodi'r ddeiseb hon a'i rhannu. Mae'n rhaid i bethau newid.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Sir Drefaldwyn
- Canolbarth a Gorllewin Cymru

Papur Briffio ar gyfer y Pwyllgor Deisebau

Rhif y ddeiseb: [P-05-0764](#)

Teitl y ddeiseb: **Gwell Gwasanaethau Iechyd Meddwl ar gyfer Oedolion**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i wella'r driniaeth a roddir i oedolion mewn gwasanaethau iechyd meddwl gan ganolbwyntio'n benodol ar wella gwasanaethau yn y gymuned, fel y Timau Iechyd Meddwl Cymunedol, adrannau damweiniau ac achosion brys, gwasanaethau i gleifion mewnol a gwasanaethau ambiwlans.

Yn rhy aml, mae'r gwasanaethau iechyd meddwl wedi siomi oedolion. Mae'n warthus meddwl bod miloedd o oedolion bob dydd yn cael eu troi o'r neilltu pan fyddant yn crefu am gymorth. Cael eich derbyn i'r ysbyty a'ch asesu'n gyflym gan seiciatrydd sy'n dweud y dylech 'wneud rhywbeth i dynnu'ch sylw oddi wrth eich problemau, a byddwch yn iawn' a chael eich anfon adref.

Rwy'n deall y bu toriadau mawr i'r gwasanaethau hyn dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, ond a dweud yn gwir mae'n annerbyniol. Ni ddylid rhoi pris ar iechyd meddwl rhywun. Dylid rhoi gofal o'r un lefel i iechyd meddwl ag i iechyd corfforol.

Pam mae mwy o gefnogaeth ar gyfer plant sy'n dioddef o iechyd meddwl? Mae cymorth ar gael i blant ar ôl iddynt gael eu derbyn i'r ysbyty, ond nid oes dim ar gyfer oedolion. Efallai y gwneir addewidion y byddant yn derbyn cymorth gan wasanaethau penodol, ond mae'r addewidion yn mynd i'r gwellt yn gyflym. Rwy'n ffieiddio at y straeon erchyll rwyf wedi'u clywed gan bobl yn y system. Rwyf wedi gweld dros fy hun y diffyg gofal ar gyfer oedolion sy'n dioddef o iechyd meddwl gwael. Mae angen i hyn newid ac mae angen iddo newid yn gyflym. Nid wyf yn fodlon sefyll o'r neilltu mwyach a gwyllo hyn yn digwydd.

Rwyf am weld newidiadau enfawr yn y ffordd y mae cleifion sy'n oedolion yn cael triniaeth a chymorth. Dylai pob gwasanaeth gydlyn â'i gilydd i ddarparu'r gofal gorau posibl. Ar hyn o bryd mae'r trefniadau cyfathrebu rhwng gwasanaethau yn ddiffygiol, gan adael y claf heb gefnogaeth. Os oes angen gwasanaethau brys ar gleifion, mae angen i rywfaint o gymorth dilynol fod ar gael pan fyddant yn dychwelyd adref. Mae'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau ar agor rhwng 9am a 5pm, ond nid yw iechyd meddwl yn diflannu am 5pm ac mae angen mwy o gymorth hygyrch ar ôl yr oriau arferol. Rwyf am weld mwy o ofal gan staff hefyd. Efallai eu bod wedi cael yr hyfforddiant sy'n ofynnol ar gyfer eu swydd ond nid oes empathi a pharch i'w gweld yn unman. Mae'n bryd i bethau newid.

Y cefndir i'r polisi

Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010

Nod [Mesur Iechyd Meddwl \(Cymru\) 2010](#) oedd sicrhau mynediad cynharach a haws i wasanaethau ar gyfer pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl er mwyn helpu i atal y datblygiad o symptomau mwy difrifol. Mae hyn wedi cynnwys:

- sefydlu gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol (LPMHSS) i wella mynediad i wasanaethau iechyd meddwl mewn lleoliadau gofal sylfaenol;
- cryfhau gwaith cynllunio gofal a thriniaeth i bobl â phroblemau iechyd meddwl mewn gofal eilaidd;
- darparu mynediad haws yn ôl i ofal/triniaeth i gleifion sy'n oedolion pan fyddant wedi'u rhyddhau o wasanaethau iechyd meddwl eilaidd;
- ymestyn y categorïau o gleifion sydd â hawl i eiriolaeth iechyd meddwl annibynnol.

Roedd y Mesur hefyd yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adolygu sut y gweithredir y Mesur. Cafodd [Adroddiad Terfynol y Ddyletswydd i Adolygu](#) ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2015. Roedd yr adroddiad yn cynnwys argymhellion i ddiwygio'r ddeddfwriaeth a'r ffordd mae'n gweithredu gan gynnwys:

- ymestyn y categorïau o weithwyr iechyd proffesiynol sy'n gallu cynnal asesiadau LPMHSS ac yn dod yn gydgyssylltwyr gofal;
- diwygio Rhan 3 o'r Mesur i sicrhau nad oes terfyn oedran o ran y gallu i wneud cais am ailasesiad o iechyd meddwl neu ymestyn y gallu i wneud cais am ailasesiad i bobl a enwir gan y claf;
- gosod gofynion adrodd ar fyrddau iechyd ynghylch boddhad cleifion, canlyniadau, a gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o wasanaethau o dan y Mesur, yn enwedig ymysg cleifion a meddygon teulu;
- dylai gweithgor ystyried gwella ffurf a chynnwys cynllunio gofal a thriniaeth. Dylai hefyd edrych ar gryfhau'r canllawiau ar gymhwysedd i gydgyssylltu gofal ac ar y rhyngwyneb rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd.

Roedd y Mesur hefyd yn destun [craffu ar ôl deddfu](#) gan Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Pedwerydd Cynulliad (2014/15).

Yn ei ymateb i'r Pwyllgor Deisebau (dyddiedig 11 Mehefin 2017), nododd **Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon** fod gostyngiad mewn amseroedd aros ar gyfer asesiad a thriniaeth iechyd meddwl.

with the introduction of the Mental Health (Wales) Measure 2010 we set targets that 80% of people should have a mental health assessment by a local primary mental health support service (LPMHSS) within 28 days of a referral. (...). In December 2016, more than 85% of people were seen for an assessment within 28 days, compared to just over 60% in December 2013. In addition, 77% of

therapeutic interventions were started within 28 days following an assessment last December, compared to around 63% in December 2013.

Law yn Llaw at Iechyd Meddwl

Mae'r Mesur Iechyd Meddwl yn ategu strategaeth 10 mlynedd Llywodraeth Cymru i wella iechyd meddwl a lles, [Law yn Llaw at Iechyd Meddwl](#) (a gyhoeddwyd yn 2012). Cyhoeddwyd [cynllun cyflawni ar gyfer 2016-2019](#), yr ail o dri chynllun, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2016. Mae'r cynllun cyflawni yn nodi nifer o feysydd blaenoriaeth, gan gynnwys y canlynol ynghylch mynediad i wasanaethau ac ansawdd y gwasanaethau hynny:

Maes blaenoriaeth 3 – Mae gwasanaethau'n diwallu anghenion holl boblogaeth amrywiol Cymru.

Maes blaenoriaeth 4 – Mae pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl, eu teuluoedd a'u gofalwyr yn cael eu trin ag urddas a pharch.

Maes blaenoriaeth 8 – Mae gwasanaethau priodol ac amserol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ar gael i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl. Mae nifer o nodau yn y maes hwn yn berthnasol i'r materion a nodwyd yn y ddeiseb, gan gynnwys:

- sicrhau bod lles meddyliol yn cael yr un flaenoriaeth â lles corfforol wrth ddatblygu a darparu gwasanaethau;
